OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2910

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005

### Enwi, cymhwyso a dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005.

**2.** Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

**3.** Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

### Diwrnod penodedig

**4.** 31 Hydref 2005 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

18 Hydref 2005

(**1**) 1998 p.38.